Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

# Y Bwrdd Rheoli
# Management Board

## Cofnodion cyfarfod 12 Tachwedd 2009, 9.30–11.30
## Ystafell Gynadledda 4B

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Claire Clancy (Prif Weithredwr a Chlerc) (Cadeirydd)<br>Dianne Bevan (Prif Swyddog Gweithredol)<br>Keith Bush (Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol)<br>Adrian Crompton (Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad)<br>Non Gwilym (Pennaeth Cyfathrebu Allanol)<br>Sulafa Halstead (Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad)<br>Steve O'Donoghue (Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad)<br>Mair Parry-Jones (Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi)<br>Kathryn Potter (Pennaeth Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau)<br>Craig Stephenson (Pennaeth y Rhaglen Newid)<br>Ian Summers (Pennaeth yr Uned Gorfforaethol)<br>Sian Wilkins (Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth)<br>Cathryn Newman (Ysgrifenyddiaeth)<br>Janette Iliffe (ar gyfer eitem 8) |

### 1. Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Estynnodd Claire Clancy groeso i Craig Stephenson yn ei swydd newydd fel Pennaeth y Rhaglen Newid, ac i Ian Summers fel Pennaeth newydd yr Uned Gorfforaethol. Cafwyd ymddiheuriadau gan Connie Robertson.

## Ffocws Strategol

### 2. Strwythur y pwyllgorau yn y dyfodol

Diben y drafodaeth oedd canolbwyntio ar sut y gallai'r pwyllgorau weithio yn y dyfodol, yn y pedwerydd Cynulliad a thu hwnt. Roedd y materion a drafodwyd yn cynnwys natur a rôl grwpiau trawsbleidiol, ffyrdd o weithio mewn gwledydd eraill, defnyddio strwythurau mwy hyblyg, ac ymateb yn fwy effeithiol i ddiddordebau a thalentau Aelodau. Roedd rhai heriau i'w hystyried hefyd, er enghraifft, cynyddu'r diddordeb yn y pwyllgorau y mae llai o ddiddordeb ynddynt, ac annog ymateb cadarnhaol i newid.

## Penderfyniadau Busnes

### 3. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2009

Cytunwyd eu bod yn gofnodion cywir.

**Camau y cytunwyd arnynt:**

- Yn y dyfodol, cynhelir cyfarfod blynyddol ar y cyd rhwng y Bwrdd Rheoli ac Ochr yr Undebau Llafur;
- Bydd y staff yn cael gwahoddiad drwy e-bost i weld a oes ganddynt ddiddordeb mewn arsylwi cyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol.

### 4. Risgiau strategol – nod 3 – dangos parch, cywirdeb a llywodraethu da

Y prif risg o ran cyrraedd y nod hwn, fel y'i nodir ar hyn o bryd, oedd "bylchau neu ddiffygion o fewn ein rheolaethau, systemau neu brosesau". Cafwyd trafodaeth eang ar ymgorffori arweinyddiaeth mewn llywodraethu a theilwra negeseuon ar gyfer y gynulleidfa, gydag ymdrech bellach i annog staff i fynychu sesiynau sbardun perthnasol ac i gynnwys rheoli risg fel rhan o'u ffurflen rheoli perfformiad ac adolygu datblygiad. Gallai'r meysydd eraill y gellir gwneud cynnydd ynddynt gynnwys y fforwm risg a'r rhaglen newid, yn ogystal â sefydlu calendr o ddigwyddiadau i staff.

Codwyd y materion canlynol fel risgiau penodol o ran cyrraedd y nod:

- Gwaith craffu'r Pwyllgor Cyllid a gorfod ailgyflwyno'r gyllideb;
- Treuliau Aelodau'r Cynulliad;
- Cynllunio ar gyfer y pedwerydd Cynulliad;
- Yr Etholiad Cyffredinol ac ethol Prif Weinidog – sefydlu'r gweithdrefnau cywir ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn digwydd yn aml.

### 5. Adroddiad rheolaeth ariannol: cyfnod hyd yn hyn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi 2009

Tynnodd Steve O'Donoghue sylw at y ffordd newydd o ragweld gwariant sy'n cael ei chyflwyno. Atgoffwyd aelodau'r Bwrdd y dylent gydnabod gwariant dilys a phriodol ar gyfer y flwyddyn hon, ac ystyried a fyddai modd iddynt ddwyn ymlaen unrhyw brojectau o flwyddyn ariannol 2010-11.

### 6. Y dashfwrdd perfformiad allweddol

Nodwyd y dashfwrdd, ynghyd â'r dyddiad targed diwygiedig ar gyfer Prosiect UNO, sef 20 Tachwedd 2009. Nododd Non Gwilym y byddai'r data o ran defnyddwyr senedd.tv ar gael o fis Hydref.

### 7. Adroddiad yr Adran Adnoddau Dynol sy'n nodi'r prif bwyntiau

Nodwyd yr adroddiad.

### 8. Adborth yn dilyn y sesiwn Cyfnewid ar 'barcio'

Roedd Janette Iliffe yn bresennol ar gyfer yr eitem hon. Nododd a chroesawodd y Bwrdd grynodeb o'r adborth gan staff ar yr eitem hon. Bydd arolwg teithio i'r gwaith yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Tachwedd, a chadarnhaodd Dianne Bevan fod tasglu yn ymchwilio i'r holl bosibiliadau. Mae'r tasglu wedi ymrwymo i gyflwyno cynigion cadarn erbyn diwedd mis Chwefror 2010 er mwyn i'r Bwrdd Rheoli eu hystyried. Byddai ymateb manwl yn cael ei gynnwys mewn gohebiaeth i staff.

## Papurau drafft Comisiwn y Cynulliad

### 9. Y wybodaeth ddiweddaraf am brosiect Cefnogi Aelodau'r Cynulliad

Trafododd y Bwrdd y papur drafft a baratowyd gan Chris Reading. Cafwyd rhai sylwadau ynghylch yr atodiadau, a gofynnwyd i aelodau'r Bwrdd anfon unrhyw sylwadau mewn e-bost at Chris Reading cyn gynted â phosibl fel y gall ailddrafftio'r papur.

### 10. Ein hymrwymiad i gynaliadwyedd

Trafododd y Bwrdd y papur drafft a baratowyd gan Connie Robertson. Yn absenoldeb Connie, gofynnwyd i aelodau'r bwrdd anfon e-bost ati yn cynnwys unrhyw sylwadau am y papur.

### 11. Y rhaglen dreigl

Nodwyd y rhaglen dreigl ar gyfer papurau'r Comisiwn yn y dyfodol.

## Dod â'r cyfarfod i ben

### 12. Unrhyw fusnes arall

Dim.

### 13. Cyfathrebu â staff

Bydd Dianne Bevan yn trefnu bod y pynciau a drafodwyd yn cael eu rhannu â staff ar y dudalen newyddion cyn gynted â phosibl.

### 14. Agenda'r cyfarfod nesaf

Keith Bush a Kathryn Potter a fydd yn casglu'r eitemau i'w cynnwys yn agenda'r cyfarfod nesaf.

**Yr Ysgrifenyddiaeth**
**Tachwedd 2009**